



Hoffwn eich hatgoffa am yr adnodd darllen gwych yma sydd ar gael i chi a'r plant adref ac yn yr ysgol. Dyma'r ddolen bwysig i gyrraedd y wefan <https://www.darllenco.wales/>. Adnodd llyfrau rhyngweithiol ar gyfer plant ysgolion cynradd, athrawon a rhieni yng Nghymru yw Darllen Co. Ein nod yw sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad at lyfrau cyffrous, cynhwysol, o safon, fydd yn hybu cariad gydol oes at ddarllen yn yr ysgol ac yn y cartref.

Dyma sydd gan Darllen Co i'w gynnig!

#### Dysgwyr llawn cymhelliant

Rydyn ni'n darparu amrywiaeth o lyfrau cyffrous a chynhwysol gan awduron a darlunwyr gorau Cymru.

Bydd ein llyfrgell sy'n tyfu'n barhaus yn hybu hyder a datblygu annibyniaeth ar yr un pryd â gwella sgiliau darllen, a darllen a deall.

#### Athrawon Hapus

Eisiau arbed amser? Gallwch neilltuo llyfrau i'r dosbarth cyfan, i grwpiau penodol neu i ddysgwyr unigol. Aseswch ddysgu eich dysgwyr gydag adroddiadau darllen dyddiol a sgorio cwisiau darllen a deall yn awtomatig.

Defnyddiwch ein dull darllen Sgiliau'r Ddraig (DRRAEG) wrth ddarllen gyda'ch dysgwyr i feithrin darllenwyr medrus.

#### Rhieni Hyderus

Mae ffeil sain darllen-i-mi gyda phob llyfr sy'n rhoi'r hyder i chi gefnogi'ch plentyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gennym gyhoeddiad cyffrous am ein porth rhieni yn dod yn fuan.

Byddwn yn defnyddio Darllen co yn yr ysgol ac fel adnodd gwaith cartref wrth symud ymlaen, ond mae hi'n adnodd gwych i hybu hwyl a chariad at ddarllen wrth ddarllen adref ac efallai gwranddo ar straeon gan drafod yn frwd gyda oedolion a ffrindiau. Ewch ati yn frwd! Dyma'r ddolen eto rhag ofn i chi ei fethu <https://www.darllenco.wales/>



I would like to remind you of this fantastic reading resource which is available to you and your child at home and at school. This is the link to access the website: <https://www.darllenco.wales/>. Darllen Co is a Welsh-language online reading resource for primary school children, teachers and parents in Wales. Our aim is to ensure that every child in Wales has access to exciting, inclusive, high quality books, which will promote a lifelong love of reading at school and at home.

This is what Darllen Co has to offer!

#### Motivated Learners

We provide a wide variety of exciting and inclusive books, created by Wales' best authors and illustrators.

Our ever-growing library will boost confidence and promote independence whilst improving comprehension and reading skills.

#### Happy Teachers

Want to save time? You can assign books to the entire class, specific groups or individual learners. Assess and track your students' learning with real time daily reading reports and automatic scoring of comprehension quizzes.

Use our Dragon Skills approach and planning when reading with your learners to develop skilled and competent readers.

#### Confident Parents

Read-to-me audio files with each book giving you the confidence to support your child through the medium of Welsh.

We have an exciting announcement about our parent portal coming soon.

We will be using Darllen Co in school and as a resource for home work. It's a fantastic resource which promotes fun and a love of reading by reading at home and listening to stories and discussing them with adults and friends. Enjoy! Here's the link again in case you missed it: <https://www.darllenco.wales/>